

POLISI PREIFATRWYDD GWASANAETHAU ETHOLIADOL

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful rydym yn cymryd eich preifatrwydd o ddifri a dim ond yn cadw ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am resymau y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi mewn perthynas â'r Gofrestr Etholiadol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data rydym am fod yn siŵr eich bod chi'n deall sut y gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio.

Caiff eich data ei defnyddio ar gyfer y dibenion canlynol:

1. Sicrhau fod pob etholwr cymwys ac arfaethedig ar y gofrestr etholiadol.
2. Sicrhau bod hawl gennych i bleidleisio, fel sy'n briodol, mewn etholiadau lleol a chenedlaethol a refferenda.
3. Dibenion etholiadol.
4. Galw pobl i wasanaeth rheithgor.
5. Atal a datgelu trosedd yn cynnwys twyll.
6. Gwirio ceisiadau credyd.

Rydym ni'n gallu gwneud hyn am fod deddfwriaeth yn dweud bod yn rhaid i ni ei wneud, y mae er budd y cyhoedd i'w wneud; ac mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â goblygiadau cyfreithlon. Mae yna lawer iawn o wahanol statudau ar gyfer cydymffurfio â goblygiadau cyfreithiol. Caiff y prif reolau eu cynnwys yn:

- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1983, 1985 a 2000
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, 2000
- Deddf Llywodraeth Leol, 2000
- Cynrychiolaeth o Reoliadau'r Bobl, 2001
- Deddf Gweinyddu Etholiadol, 2006
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol, 2013
- Amrywiol gyfreithiau etholiadol
- Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth, 2012

Nid yw'n fwriad i'r rhestr hon fod yn gyflawn.

Mewn perthynas ag etholiadau, mae'n bosibl y byddwn yn cadw cofnodion am ymgeiswyr a'u hasiantau, a chyflogeion dros dro a gyflogir er mwyn bodloni meini prawf statudol sy'n berthnasol i weinyddu etholiadau.

Gallwn rannu gwybodaeth etholwyr gyda:

- Argraffwyr ar gontract i brintio cardiau pleidleisio; pecynnau pleidleisio drwy'r post a deunydd arall etholiadol.
- Pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr mewn etholiadau a deiliaid swydd etholedig i ddefnyddio'r gofrestr at ddibenion etholiadol.
- Mae'r Cyngor a'r [Llyfrgell Brydeinig](#) yn dal copïau y gall unrhyw un edrych arnynt o dan oruchwyliaeth. Caiff copïau hefyd eu cadw gan [Y Comisiwn Etholiadol](#), y [Comisiwn Ffiniau i Gymru](#) (sy'n gosod ffiniau etholaethau ar gyfer y rhan fwyaf o etholiadau) a'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#).
- Gall y Cyngor ddefnyddio'r gofrestr at ddibenion sy'n berthnasol i ddiogelwch, gorfodi'r gyfraith ac atal trosedd. Gall yr Heddlu a'r gwasanaethau diogelwch hefyd ei ddefnyddio ar gyfer gorfodi'r gyfraith.
- Mae [Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM](#) yn defnyddio'r gofrestr etholiadol wrth alw am bobl ar gyfer gwasanaeth rheithgor.
- Gall adrannau'r llywodraeth brynu'r gofrestr oddi wrth Swyddogion Cofrestru lleol a'i defnyddio i helpu i atal a datgelu trosedd. Gallant hefyd ei ddefnyddio i ddiogelu diogelwch gwladol drwy wirio cefndir ymgeiswyr am swyddi a chyflogeion.
- Mae hawl gan asiantaethau cyfeirio credyd i brynu'r gofrestr i'w helpu nhw i wirio enwau a chyfeiriadau pobl sy'n gwneud cais am gredyd. Maen nhw hefyd yn ei ddefnyddio i gyflawni gwiriadau hunaniaeth wrth geisio atal a datgelu gwyngalchu arian.

Y mae'n drosedd i unrhyw un sy'n derbyn copi o'r gofrestr ei defnyddio ar gyfer unrhyw beth ac eithrio'r diben a nodwyd.

Fel arall, byddwn ni'n rhannu eich data ddim ond os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny, neu os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu os yw'r gyfraith yn ein caniatáu ni i wneud hynny.

Dim ond am gyfnod penodol o amser a nodir yn ein hamserlen cadw y byddwn yn cadw'r data hwn neu yn ôl yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Caiff eich data personol ei brosesu (gan gynnwys ei storio) oddi fewn i Ardal Economaidd Ewrop yn unig.

Sefydliadau Partner

Er mwyn gwireddu eich hunaniaeth, caiff y data rydych yn ei ddarparu ei brosesu gan Wasanaeth Digidol Cofrestru Etholiadol Unigol (Individual Electoral Registration Digital Service (IERDS)) a reolir gan Swyddfa'r Cabinet. Fel rhan o'r broses hon bydd eich data yn cael ei rannu gydag Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) a chyflenwyr Swyddfa'r Cabinet sydd yn broseswyr data ar gyfer IERDS. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am hyn yma: <https://www.registertovote.service.gov.uk/register-to-vote/privacy>

- Mae'r AGPh yn defnyddio data a ddarperir i wireddu hunaniaeth ymgeiswyr newydd.
- Bydd IERDS yn hysbysu'r hen awdurdod lleol am bobl sydd wedi symud ardal.
- Caiff gwybodaeth ei phrosesu oddi fewn i Ardal Economaidd Ewrop (AEE) ac ni chaiff ei rhannu â derbynwyr dramor.

Os yw eich manylion yn y fersiwn Agored o'r Gofrestr Etholiadol, gall eich enw a'ch cyfeiriad gael eu gwerthu i drydydd partïon a all eu defnyddio at unrhyw ddiben.

Gallwch optio allan o'r fersiwn hwn ar unrhyw adeg a chewch y cyfle i wneud hynny'n flynyddol fel rhan o'r Canfasio am bob cartref.

Mynediad at Ddata

Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu hawliau mynediad penodol at y wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch ar gofnodion papur a chyfrifiadur. Gelwir hyn yn 'hawl testun data'. Fodd bynnag, ni fydd yr holl hawliau hyn ar gael i chi ym mhob sefyllfa, yn enwedig pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth fel rhan o un o'n dyletswyddau statudol. Pan fyddwn o dan ddyletswydd gyfreithiol i ddefnyddio data at ddibenion penodol ni fydd gennych yr hawl i'w atal i gael ei ddefnyddio yn y modd hwnnw.

Os ydych am gysylltu â ni mewn perthynas ag unrhyw un o'ch hawliau gwybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn data.protection@merthyr.gov.uk neu'r Tîm Diogelu Data, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, CF47 8AN

Os ydych am gwyno am sut gaiff eich gwybodaeth bersonol ei thrin gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yna cysylltwch â'r Tîm Diogelu Data yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion uchod. Os nad ydych yn fodlon gallwch gyflwyno cwyn ffurfiol i'r Cyngor drwy <https://www.merthyr.gov.uk/do-it-online/say-it/make-a-complaint/>

Yn olaf, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yma: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH. Ffôn: 029 2067 8400 neu gallwch ymweld â'u gwefan yma ico.org.uk.

Gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion pellach mewn perthynas â'n polisiau diogelu data drwy ymweld â: <https://www.merthyr.gov.uk/council/data-protection-and-freedom-of-information/data-protection-policies/?lang=cy-GB&>

Am unrhyw ymholiadau cyffredinol gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy ffonio 01685 725000, drwy e-bost <mailto:customer.care@merthyr.gov.uk> neu drwy ysgrifennu atom yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.